

YMARFER 5: Sylwadau

From time to time I receive picture postcards from friends on holiday in Italy. They show the canals of Venice, the cathedral at Milan, the Basilica of St Francis at Assisi, some of the lovely Alpine lakes, Vesuvius across the Bay of Naples¹ and other splendours.

Italy is no doubt a wonderful country, but more and more of us are beginning to have doubts. The Italians may be enlightened in many ways, but barbarism is still rife there judging by the appalling all-year-round slaughter of wild birds, even the smallest birds, that goes on remorselessly.² In Italy the gunmen even have the right to invade other people's property in pursuit of their miserable sport.

Living as I do on an RSPB reserve³, I see visitors every day following the trails or sitting in hides and getting endless delight from simply watching birds without ever disturbing them let alone wanting to kill them. So why can't the Italians do the same? Why can't they impose restrictions⁴ on shooting to bring it in line with the shooting laws of Northern Europe.

Heaven knows, we are far from perfect in our treatment of wild birds, but at least we don't shoot robins, swallows, nightingales and other songsters.⁵ Nor birds of prey either. Mercifully, there is now a growing Italian lobby against the indiscriminate slaughter of birds and what we can all do is make our disapproval known⁶, especially to anyone involved with Italian tourism.

[The Guardian]

1. **Cywair/
Ysytr** **They show the canals of Venice, the cathedral at Milan, the Basilica of St Francis at Assisi, some of the lovely Alpine lakes, Vesuvius across the Bay of Naples...**

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *Dangosant gamlesi Fenis, eglwys gadeiriol Milan, Basilica Sant Ffransis o Assisi, rhai o'r llynnoedd Alpaidd hyfryd, Feswfiws o Fae Naples.*
2. *Ceir arnynt luniau... Basilica Sant Francis o Assisi, rhai o'r llynnoedd hyfryd yn ardal yr Alpaidd, Vesuvius ar hyd Bae Naples.*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *Arnynt ceir lluniau o gamlesi Fenis, y gadeirlan ym Milan, Basilica Sant Ffransis yn Assisi, rhai o lynnoedd godidog yr Alpau, Feswfiws ar draws Bae Naples.*

SYLW:

Mae enghreifftiau Afl.1 ac Afl.2 yn camgyfieithu'r gwreiddiol. Nid 'Francis of Assisi' sydd yn y gwreiddiol ond 'at Assisi'. Ac eto, nid *o fae Naples* y gwelir Feswfiws, nac *ar ei hyd* chwaith, ond 'ar ei draws'. Geiriau bychain ond rhai sy'n rhoi ystyr hollol wahanol.

Sylwch mor naturiol y mae'r ymadrodd *rhai o lynnoedd godidog yr Alpau* yn y cyfieithiad llwyddiannus. Gwell na *llynnoedd Alpaidd hyfryd* brawddeg Afl.1 a chryn dipyn yn well na *llynnoedd hyfryd ardal yr Alpaidd* brawddeg Afl.2!

2. Cywair/
Cywirdeb/
Cystrawen

The Italians may be enlightened in many ways, but barbarism is still rife there judging by the appalling all-year-round slaughter of wild birds, even the smallest birds, that goes on remorselessly.

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *Gall yr Eidalwyr fod yn oleuedig mewn nifer o ffyrdd, ond mae barbariaeth yn rhemp yno o farnu'r lladdfa flynyddol o adar gwyllt, hyd yn oed yr adar lleiaf, sy'n parhau yn ddirugaredd*
2. *Efallai bod yr Eidalwyr... o farnu'r cyflafanu gwarthus o'r adar gwyllt, hyd yn oed yr adar lleiaf, sy'n mynd ymlaen yno drwy gydol y flwyddyn yn ddiedifar.*
3. *Mae'r Eidalwyr yn oleuedig... ond mae barbarieath (sic) dal yn gyffredin yno gan feirniadu ar y lladdfa ofnadwy o adar gwyllt... sydd yn dal ymlaen yn ddirugareddol.*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *Efallai wir fod yr Eidalwyr yn oleuedig mewn sawl ffordd, ond mae barbariaeth yn dal yn rhemp yno, a barnu yn ôl y lladd echrydus sy'n dod i ran adar gwyllt yno drwy gydol y flwyddyn, hyd yn oed yr adar lleiaf, a hynny'n ddirugaredd.*

SYLW:

1. Defnyddir *gall* ym mrawddeg Afl.1 i gyfleu 'may'. Mae hyn yn peri amwysedd, oherwydd gellid cyfieithu'r *gall* fel 'can/are able to'. Mae *efallai* yn cyfleu'r ystyr yn well.
2. Mae gwall teipio heb ei olygu ym mrawddeg Afl.3 – *barbarieath* am *barbariaeth*.
3. Mae dylanwad y Saesneg 'goes on' yn rhy amlwg ar ymadroddion fel *mynd ymlaen/yn dal ymlaen*. Beth sydd o'i le ar y gair bach 'digwydd'?
4. Mae'n werth sylwi hefyd fod gofyn cynnwys yr '*yn*' berfenwol o flaen y berfenw *dal*. Gweler brawddeg Afl.3 – *mae barbariaeth dal yn gyffredin*. Nid gair sy'n gyfystyr â'r adferf 'still' mo hwn, eithr ymadrodd Cymraeg yn cynnwys 'yn' + berfenw i gyfleu ystyr 'still'.
5. Mae angen gofal wrth ymdrin â chystrawen y genidol. Mae'r iaith Saesneg yn fwy tueddol o ddefnyddio enwau haniaethol nag yw'r Gymraeg, er enghraifft, 'the slaughter of wild birds'. Nid yw'r cyfieithiadau a geir yn y brawddegau aflwyddiannus, er enghraifft, *y lladdfa ofnadwy o adar* yn gywir. Lle bo hynny'n bosibl, dylid defnyddio berfenw i gyfleu'r enw haniaethol fel y gwelir yn y frawddeg llwyddiannus, sef *y lladd echrydus*. Sylwch hefyd nad

yw'r Gymraeg yn trosi'r 'of' Saesneg. Gellwch ddarllen rhagor am y genidol (ymadroddion enwol dibynnol) yn *Gramadeg y Gymraeg* (Peter Wynn Thomas), tt. 320–4.

6. Mae dewis *beirniadu* yn lle *barnu* am y Saesneg 'judging' yn awgrymu methiant i ddefnyddio geiriadur yn ddoeth. Mae'n bwysig dros ben ystyried cyd-destun gair cyn dewis gair i'w gyfieithu.

**3. Cystrawen/
Cywair** **Living as I do on an RSPB reserve,..**

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *Wrth fyw fel yr wyf fi ar warchodfa RSPB...*
2. *Yn byw fel yr ydwyf ar dir cadwraeth y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar...*
3. *Gan fyw fel yr ydwyf...*
4. *Wrth fyw fel rwyf fi ar warchodfa RSPB, rwy'n gweld ymwelwyr...*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *Oherwydd/Gan fy mod yn byw ar un o warchodfeydd y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar...*
2. *A minnau'n byw ar un o warchodfeydd y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar...*

SYLW:

1. Fel y gwelir ym mrawddegau Afl.1 ac Afl.2, mae ffurf Gymraeg gydnabyddedig ar yr 'RSPB'. Lle bo term o'r fath, dylid ei ddefnyddio. Fodd bynnag, ar ôl defnyddio'r term Cymraeg llawn unwaith a rhoi'r acronym Saesneg mewn cromfachau ar ei ôl, gallech wedyn ddefnyddio'r acronym Saesneg yng ngweddill y darn. Nid yw'r sefyllfa honno'n codi yma gan mai unwaith yn unig y cyfeirir at yr 'RSPB'.
2. Sylwch hefyd fel y cyfieithwyd yr ymadrodd dechreuol yn LI.1 a LI.2. Gochelwch rhag dilyn y gystrawen Saesneg â'r rhangymeriad 'living' yn slafaidd. Mae'n werth dysgu a deall cystrawen 'Yr Ymadrodd Annibynnol'. Bydd yr ymadrodd sydd dan sylw yn hollol annibynnol ar gystrawen y brif frawddeg y mae ynghlwm wrthi, a chyflwynir ef gan y cysylltair 'a/ac'. I ddysgu rhagor am yr Ymadrodd Annibynnol, trowch i *Gramadeg Cymraeg* gan David Thorne, tt. 376–7.

**4. Cystrawen/
Cywirdeb** **So why can't the Italians do the same? Why can't they impose restrictions...**

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *Pam na all yr Eidalwyr wneud yr un fath? Pam na allent osod cyfyngiadau...*
2. *Pam felly na allai'r Eidalwyr wneud yr un peth? Pam na allent osod...?*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *Pam felly na all yr Eidalwyr wneud yr un peth? Pam na allent*

osod cyfyngiadau...?

SYLW:

1. Mae esgeulustod yma wrth gyfieithu'r ferf 'can't', sef amser presennol mynegol y ferf 'can'. Ym mrawddeg Afl.1, yr amser presennol mynegol yw *all* ond yr amser amherffaith/amodol mynegol yw 'allent'. Wedyn, ym mrawddeg Afl.2, ceir yr amser amherffaith/amodol *allai* a'r presennol mynegol *allant*. Mae berfau'r ddwy frawddeg yn anghywir ac yn anghyson.
2. Mae marc gofyn cwestiwn wedi'i hepgor ym mrawddeg Afl.1.

5. Ystyr/
Cystrawen

Heaven knows, we are far from perfect in our treatment of wild birds, but at least we don't shoot robins, swallows, nightingales and other songsters.

Cyfieithu Aflwyddiannus:

1. *Duw a wŷyr, rydym yn bell o fod yn berffaith yn y modd yr ydym yn trin adar gwyllt, ond o leiaf nad ydym yn saethu robiniaid cochion, gwenoliaid, eosiaid ac adar cân eraill.*
2. *...y modd rydym yn trin ein hadar gwyllt, ond o leiaf nid ydym yn saethu'r Robin goch, y Wennol, yr Eos a chanwyr bach eraill.*
3. *...Duw a wŷyr, rydym ymhell o fod yn berffaith wrth drin adar gwyllt, ond o leiaf nid ydym yn saethu'r robin, y wennol, yr eos ac adar eraill sy'n trydar.*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *Dyn a wŷyr, nid ydym ninnau'n berffaith o bell ffordd yn y modd yr ydym yn trin adar gwyllt, ond o leiaf nid ydym yn saethu'r robin goch, y wennol, yr eos na'r un telor arall.*

SYLW:

1. Nid yw'r brawddegau Afl.1, Afl.2 ac Afl.3 wedi cyfleu'r pwyslais ar 'ni': collir y gymhariaeth felly rhwng yr Eidalwyr a'r Cymry. Daw'r pwyslais hwn yn glir yn y frawddeg llwyddiannus.
2. Cofier mai cyflwyno cymalau enwol ac adferfol y bydd 'nad'. Nid yw'n gywir yn dilyn *o leiaf* yng nghyfieithiad Afl.1: prif gymal sydd yma.
3. Yr arfer yw rhoi llythyren fach, nid priflythyren, i enw aderyn ac anifail. Ceir rhagor o fanylion am hyn yn *Gramadeg y Gymraeg*, Peter Wynn Thomas, tt. 750–1 ac yn *Y Golygiadur*, Rhiannon Ifans, tt. 128–136.
4. Mae'n fwy naturiol defnyddio'r ffurfiau unigol wrth sôn am adar yn y Gymraeg.
5. Go brin y byddai *canwyr* yn ddiamwys wrth sôn am y 'songsters' sydd yn y gwreiddiol. Gallai 'canwyr' neu 'gant Orion' olygu pobl, fel Bryn Terfel dyweder!

6. Ystyr/
Cystrawen/
Cywirdeb

what we can all do is make our disapproval known

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *...a'r cwawl allwn ni ei wneud yw lleisio'n anfodlonrwydd (sic).*
2. *...a'r cyfan fedrwn ni ei wneud yw gwneud yn hysbys ein gwrthwynebiad...*
3. *...a'r oll y gallwn ni ei wneud yw lleisio'n anghymeradwyaeth (sic).*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *...gallwn oll leisio'n hanfodlonrwydd...*
2. *...a'r hyn y gall pob un ohonom ei wneud yw rhoi gwybod ein bod yn anghymeradwyo hyn...*

SYLW:

1. Mae'r brawddegau aflwyddiannus yn camddehongli'r Saesneg gwreiddiol: nid 'all we can do' a geir yn y Saesneg, ond 'we can all do'.
2. Gwelir gwallau treiglo yn mrawddegau Afl.1 ac Afl.3, lle na cheir 'h' ar ôl *ein* ar ddechrau gair sy'n dechrau â llafariad, er enghraifft, 'ein hanghymeradwyaeth'.
3. Oherwydd y camddehongli, mae cymal perthynol afrywiog wedi datblygu yn y brawddegau aflwyddiannus. Cofier y dylid cynnwys y rhagenw perthynol 'y' mewn cymal o'r fath. Felly, yn lle:
a'r cwawl allwn ni ei wneud – 'y cwawl y gallwn ni ei wneud'
a'r cyfan fedrwn ni ei wneud – 'y cyfan y medrwn ni ei wneud'.
Trowch i *Gramadeg Cymraeg*, David Thorne, tt.188–199, ac yn benodol tt.193–196, i ddarllen beth yw'r gwahaniaeth rhwng Cymal Perthynol a gyflwynir ag 'a' a'r rhai a gyflwynir ag 'y'.

* **Cywirdeb**

Cafwyd llawer o wallau sillafu a gwallau teipio:

- yn unol a/ymwneud a – yn unol â/ymwneud â
- barbarieath – barbariaeth
- heb son am – heb sôn am
- meant – maent
- ysgafaethus – ysglyfaethus
- oleaif/oleuaf – o leiaf
- wened – wneud
- camlesu – camlesi
- cynigon – cynigion
- gwennoliaid – gwenoliaid
- ni d oes – nid oes
- kannwyr – canwyr (sic)
- nag – nac
- mae nhw –maen nhw

SYLW:

Gan mai gwallau teipio yw amryw o'r rhain, mae'n debygol y byddai golygu gofalus cyn cyflwyno'r gwaith wedi eu gweld a'u

cywiro. Mae'n amlwg nad yw'r ymgeisydd yn gwybod pryd i ddyblu 'n'. Gallai defnyddio adnodd cywiro *Cysgeir* fod wedi cael gwared ar nifer fawr o'r rhain ond cofier bod eisiau gofal wrth ddefnyddio'r adnodd cywiro, rhag ofn i'r meddalwedd gredu mai gair arall sydd i fod yn y cyd-destun dan sylw, er enghraifft, 'rhieni' yn lle 'rheini'.

Cafwyd hefyd lawer o wallau treiglo. Trafodwyd rhai ohonynt wrth ymdrin â Chystrawen uchod ond gellid ychwanegu'r canlynol.

A wyddoch chi pam y mae'r ffurfiau sydd yn y golofn ar y chwith yn wallus?

- ein anfodlonrwydd - ein hanfodlonrwydd
- ein ymdriniaeth - ein hymdriniaeth
- wrth dilyn - wrth ddilyn
- y lofruddiaeth - y llofruddiaeth
- llofruddiaeth diwahân - llofruddiaeth ddiwahân
- ar ôl gollu - ar ôl colli
- roi gyfyngiad - rhoi cyfyngiad
- at rhywrai – at rywrai